

## Cylch Gorchwyl: GRŴP YMGYNGHOROL TIROEDD Y BRIFYSGOL

Yn adrodd i: Gweithrediaeth y Brifysgol

Yn cyfarfod: dwywaith y flwyddyn. Os yw'r Cadeirydd yn barnu ei bod yn briodol, gellir cynnull cyfarfodydd ychwanegol.

*Yr adolygiad diwethaf ar y cylch gorchwyl: Chwefror 2020; y diwygiadau diwethaf: Chwefror 2020; i'w adolygu nesaf: Chwefror 2022*

---

### Aelodau:

- Ysgrifennydd y Brifysgol (Cadeirydd)
- Cyfarwyddwr yr Ystadau, Adnoddau a Llety
- Rheolwr Gweithrediadau, Ystadau, Adnoddau a Llety
- Rheolwr Cyffredinol, Y Ganolfan Chwaraeon
- Rheolwr Chwaraeon, Adnoddau a Thiroedd y Brifysgol
- Cyngorwr Amgylcheddol a Chynaliadwyedd
- Dau academydd a chanddynt arbenigedd priodol o IBERS
- Dau gynrychiolydd o gangen Ceredigion o Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru
- Cydlynnydd Datblygu Cymdeithasau

11 aelod.

Cworwm: 4 aelod (i gynnwys dau aelod o IBERS neu Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru)

### Yn gweinyddu:

Os yw'r Cadeirydd yn barnu ei bod yn briodol, gellir gwahodd swyddogion eraill y Brifysgol i gyfarfodydd.

---

### Cylch gwaith:

Mae gan y Brifysgol gyfrifoldeb i gynnal a chadw, gwella, a datblygu ei hystâd mewn dull cynaliadwy ac effeithiol, gan roi ystyriaeth i'r adnoddau sydd ar gael a sicrhau aliniad strategol.

Bydd Grŵp Ymgynghorol Tiroedd y Brifysgol yn cefnogi a chynghori'r sefydliad yn y cyswllt hwn, gan gynnwys datblygu Cynllun Rheoli Cadwraeth ar gyfer tirweddau dynodedig y Brifysgol ar y campws.

---

### Cylch Gorchwyl:

1. Ystyried a chynghori'r Brifysgol ar y materion isod:
  - a. Rheolaeth hirdymor o dirweddau dynodedig campws y Brifysgol.
  - b. Gweithredu argymhellion o unrhyw adroddiadau cysylltiedig â thirweddau dynodedig y Brifysgol.
  - c. Datblygiadau wedi'u cynllunio ar gyfer yr ystadau a fydd â goblygiadau i dirweddau dynodedig y Brifysgol, ac opsiynau posibl ar gyfer adfer y tirlunio.

---

### Gweithredu

Bydd Gweithrediaeth y Brifysgol yn cael adroddiadau rheolaidd fel sy'n briodol trwy'r Cadeirydd ar weithgareddau'r Grŵp.